W 2 2210 1081 TJ692 br 3 19

# CERDD Y WINLLAN:

## Allan o MAT. xx. 6.

"Pa'm y sefwch chwi yma ar hyd y dydd yn segur?"

*Aberystwyth, Argraffwyd gan James a Williams.* 1811.

I'W CHANU AR "FFARWEL DAI LLWYD."

I. *Annogaeth i ddyfod i'r Winllan.*

PA ham y sefwch yma'n segur,
A chymmaint sy' o eisieu gweithwyr?
On'd mawr eich bod y'min cynhaua',
Ysig arwydd, yn segura?
Gresyn yw eich gweled 'sywaeth,
Yma druain, mor ddid'rawiaeth:
Cymmerwch daith i ymofyn gwaith,
A lluniaeth llawen-fyd;
Goehelwch garu swydd seguryd, *Diar.* xii. 11.
A chwithau 'n cael goruchel iechyd;
Fe fydd edifar genych etto,
Oesog wythen, eisieu gweithio;
Cymmerwch boen hynod hoen,
A byddwch groen galed,
Chwi gewch waith gan Wr diniwed,
O dewch i'r man lle'r wyf fi 'n myned.

UNIV. COLL. OF S. WALES & MON. SALISBURY LIBRARY

II. *Gwahoddiad i'r Winllan.*

Mi wn p'le cawn ni burion Meistar,
Da i'w ganmol, un digymhar,
Y mae fo'n gwahodd pawb i'r winllan,
Etto heb arllwys mae ei berllan:
Parotown ein harfau gweithio,
Ni a gawn fawredd am lafurio,
Prynwn dorth gerllaw y porth,
Cawn ymborth ein gwala;
Fe fydd y weddw o Sarepta, 1 *Bren.* xvii. 15.
Yno i'n porthi drwy'r cynhaua';
Ni a gawn wîn i'w yfed yno,
Ganol dydd ar ol ein cinio,
Cawn wely clyd, costfawr, drud,
A myn'd mewn pryd iddo:
Ni a gychwynwn ond ei gwawrio,
Wyn têg iawnedd tuag yno.

III. *Cychwyn tua'r Winllan.*

Deuwch, fe ganodd ceiliog Peder, *Marc* xiv. 6.
Awn i'r fawr-daith bawb ar fyrder,

A

Awn i weithio oll i'r winllan,
Rhag ein colli, a'n cau allan;
Gweithiwn tra fo 'r dydd yn para,
Yn ddiau y nôs a ddaw yn nesa':
Os gweithio a wnawn, trwy 'r prydnawn,
Mae 'n hynod iawn heno,
Ni gawn daliad yn ein dwylo,
A phwy weithian na châr weithio?
Na esgeuluswn, gwyliwn goelio,
Y mae 'r gelyn yn ein gwylio;
Gwnawn waith Duw, tra bo 'm ni byw.
Yn ein rhyw, yn rhywiog,
Ac os byddwn yn flinderog,
Awn at ein Llywydd mawr galluog.

IV. *Mordwyo tua 'r Winllan.*

Y mae 'r ffordd yn dra pheryglus,
Byddwch filwyr pur ofalus,
Dros lynn Sodom a Gomorra,
Y cyfeiriwn yno 'n nesa';
Yn rhodd gocheled neb wan-ffyddio,
Rhag, fel Suddas, iddo suddo:
Dacw 'r fan wrth y lân,
Mae cyfran o'n cyfer,
A fu gynt gan Simon Peder, *Marc* vi 47.
Yn mordwyo dros y dyfnder: *Mat.* xiv. 29.
Mae 'n rhaid i bawb a elo i'r winllan,
Fedru, cofiwch, rwyfo 'r cafan,
A dal yn dynn o'r naill du i'r llynn.
Y mae sugyn ynddo,
Gochelwch rhag i'w donau 'ch d'wyno,
Y mae surni a drygsawr arno.

V. *Llynn Sodom.*

Mae lle enbyd i siwrneia,
Drwy anialwch y byd yma,
Môr o ddiluw mawr o ddialedd,
Llynn enweiriog llawn anwiredd,
A ninnau ynddo 'n nofio 'n ufudd,
Yn cael ein llwyddiant a'n llawenydd,
Heb feddwl fawr am yr awr,
Fe ddaw dirfawr derfyn,
Fe wisg yr einioes bob yn ronyn,
A dull adwyth fel dilledyn:
Clod i Dduw a'n dygodd drosodd,
Yn nerth ei gorwynt ef a'n gyrodd;

Y mae hi 'n bryd i ni i gyd,
  Bob munud, rai mwynedd,
I ochelyd drwg orchwyledd,
Fwya' baich fawr feiau 'n buchedd.

VI. *Gwahardd Ffrwythau Sodom.*

  Na flysiwch ddim o'r ffrwythau yma,
Sydd yn tyfu wrth lynn Sodoma,
Dacw bren a phomgranadau,
Sydd fel melus bêr afalau;
O chyffyrddwch â'r rhai acw,
Yn anaele hwy ân' yn ulw;
Dowch ar frys tua 'r llys,
  Lle cawn ddewis ffrwythau,
Ni a gawn felus bêr afalau,
Pan y mynom, ac almonau;
Nid yw hon ond gwlad anelwig,
Yn rhith hudol anrhaethiedig:
Dyma ôl rai yn troi 'n ol,
  Anrasol ddyryswch;
Er mawr elw ymwrolwch,
A gwelwch, frodyr, eich hyfrydwch.

VII. *Y Ffigysbren felldigedig.*

  Y'mhen hyn o oriwared,
Y mae eisteddfa y ffyddloniaid,
Lle y cewch weled ffigysbren,
Wyredd gynga oeredd gangen, *Mat.* xxi. 19.
Wrth ymdeithio a felldithiodd
Yr Oen gwiwlan pan ei gwelodd,
O eisieu cael ffrwythau hael,
  Ei ddiwael ddewis;
Nid oedd ond ffwgws yn lle ffigys,
I'r da enwog Dduw daionus;
Ac felly y bydd yn nydd ymweliad,
Heb un Bugail y bydd bagad,
A'u bronau yn brydd, nos a dydd,
  Heb ddeunydd dyddanwch,
Eisieu ffrwythau goleu, gwelwch,
I'w edifyru i edifeirwch.

VIII. *Taith y Dydd.*

  Dowch y'mlaen, mae 'r dydd yn darfod,
Er byred hyn o bererindod,
Na fyddwch, gwyliwch, yn war-galed.
Fel yr oedd ein hên henafiaid;

Rhoddwch olion yn eich lampau,
Rhag na bydd hi heno yn olau,
Os cysgu mawr a'n dyry lawr,
Gochelwn awr angau, *Mat.* xxv. 13.
Nid awn ni byth yn ddigon boreu,
I'r anwaeledd winllan oleu;
Na a gawn olew i ymiro,
A mwy doniau, ond myn'd yno:
Dowch yn rhwydd, serchog swydd,
Yn hylwydd a hwylus;
Os bydd y nes yn anghysurus,
Lle puredig yw Paradwys.

IX. *Taith y Nos.*

Dacw 'r sêr a'r lleuad oleu, *Dat.* xxii. 16.
Aple newidiad a'r planedau,
Yn rhodd meddyliwch am ragluniaeth,
Rhag eich syrthio i brofedigaeth:
Digon sydd o wir oleuni,
Er hyny gallwn gyfrgolli,
Bydd lawer gwaith ar y daith,
Ammheuaeth mewn dynion,
Er eu bod ar lwybrau union,
O! go fowlyd yw gofalon:
Dacw 'r wawr, a dacw 'r winllan,
Clywch y clychau mân a'r organ
Ond gwell yw bod îs y rhôd,
Yn haeddu clod, yma,
Na bod tu hwnt i lynn Sodoma,
Cauad ochain yn godecha.

X. *Porth y Winllan.*

Dyma borth y winllan oleu,
Ni a ddaethom iddi'n ddigon boreu, *Gen.* xxviii. 17
Curwch, fe agorir i chwi:
Mae 'r Gwinllanydd gwedi codi;
Dyma ddw'r, ymolchwch ynddo,
Cyn eich myn'd i mewn i weithio,
Eisteddwch beth, yn ddifeth,
Mewn helaeth le hylwydd,
Da a llawen y daw ein Llywydd,
Pan agoro ef ei gaerydd:
Siawns i ni gael gweled mo'no,
Yr wy 'n tyb'ed ei fyn'd heibio;
O'ch gwir fodd, dowch yn rhodd,
Fe agorodd ei gaerau,

Mewn medd union i'r meddiannau,
Ni a gawn ei gariad, mi a wn o'r gorau.

XI. *Annedd y Winllan.*

Awn yn gynta' man i'r annedd,
Yn ddiffael i gael ymgeledd,
Cawn yno heddwch cydwybodol,
Os ymrown i fyw 'n fucheddol; *Heb.* xii. 23.
Cawn gymdeithas gwîr grist'nogion,
A chyflawn hêdd mewn annedd union,
Gwnawn ar ol Pedar, Paul,
A'r deg apostol ereill,
Yma y mynnent hwy ymgynnull,
Er gwaetha' dynion circhion erchyll;
Sylfaenwn ninnau 'n cywir obaith,
C'ruaidd dynniad, a'n crediniaeth,
Ar y sail, dda, ddi ail,
Ar Adail hyfrydlon,
A sicrhâw'd i'r apostolion,
Oedd ysbrydol ddoniol ddynion.

XII. *Adail y Winllan.*

Adeiladwyd ein preswylfa,
Ar ben Craig ein hamddiffynfa,
Lletty gwiwlân yw, O gwelwch,
Da i'w gael er diogelwch:
Crist ei hun yw Craig ein nodded,
Rhoddwn ynddo ein holl ymddiried;
Ein cadarn dwr yw e'n siwr,
A'n Prynwr pur enwog,
Athro gwrol, tra thrugarog,
Ei allu, llawer, Hollalluog;
Efe yw 'r dw'r o'r greigle galed,
A ddyfrhaodd yr Israeliaid, *Ecs.* xvii. 6.
Ein porth a'n pôr, ein cadarn Iôr,
Ein trysor a'n trwsiad,
Yn dra chyfion, a'n derchafiad,
O lin Dafydd wiwlan dyfiad.

XIII. *Cyfocthogrwydd y Gwinllanydd.*

Llawer fydd yn yr adail yma,
Ar y Suliau yn ciniawa,
Gwr gyfoethog yw 'r Gwinllanydd,
Efe a bia 'r môr a'r mynydd;
Os daw neb ato i geisio ymwared, *Luc* xxii. 19, 20.
Bara a gwîn a ddyry i'r gweinied;
Gweddïo'n rhâd am leshâd,

Fe geir mawrhâd gantho,
Fe brynodd ef y byd ac sy' yntho;
Fe a gafodd ddialedd lond ei ddwylo!
Er hyny mae gelynion iddo,
A phwy nad âi yn filwr dano?
Fe edwyn ef ein llais a'n llêf,
Ni a gawn y nêf ole',
Ond gwas'naethu ei Dad ac ynte',
Ni gawn ran o'r winllan wenlle.

XIV. *Y Winllan.*

O! mor hyfryd ydyw 'r winllan,
Yn lle lliw-deg faes mawr llydan,
A llawer sydd yn gweithio ynddi,
Fe aeth y rhai 'n yn foreu iddi;
Dyma le i brynu synwyr,
O! mor gyfoethog ydyw 'r gweithwyr:
Glwys a glân yw minwydd man
Y winllan weledig,
Fel y tybiwn, heb le tebyg,
Ond Paradwys le puredig,
Y mae purion glawdd o'i dentu,
Nid eill bwystfil niweid iddi;
Ni bu erioed ireiddiach coed,
Nag fydd ar droed ynddi,
Ond eisieu yn lwysedd lân arloesi,
Y drain mawrion, a'r mieri.

XV. *Y Winwydden.*

Gwelwch freisged yw pob cangen,
O'r wen addfed wîr winwydden, *Dat.* xxii. 2.
Dysclaer ydyw 'r dail sydd arni,
Acw yn addas yn cynnyddu;
Gellwch wybod wrth ei grawnfan,
Ei bod hi agos yn Wyl Ifan:
Lledu a wnaeth ffrwythau ffraeth,
Hi a gafodd faeth foethus,
Uwchlaw Rimmon, O mor rymus
Yw ei gwreiddyn melyn melus;
Hoff gan y Gwinllanydd llawen,
Ei bod hi yn hilio y ddaearen,
O mor llawn, ddoniol ddawn,
Yw hi o'r grawn gloewon!
Y mae pryfed ffylied ffolion,
Yn ei sugno yn ddi-gasogion.

XVI. Y *Ffigysbren anffrwythlon.*

Deliwch sylw, y mae 'r ffigysbren
Tu hwnt i wraidd y wir winwydden,
Yn rhodd gochelwch wrth arloesi,
I chwi ei tharo 'chwaith na'i thori;
Fe a ro'dd yr Arglwydd i ni orchymmyn,
I'w gado hi etto i dyfu blwyddyn,
Ceibiwch, braidd, at ei gwraidd,
Dawn iraidd dynerwch; *Luc* xiii. 8.
Goreu taith yn rhodd gwrteithiwch,
Egni rasol, ac na ruswch,
Fe allai y dwg hi ffrwythau etto,
Er Duw gadewch i'r gwynt ei siglo
A bwriwch chwi y pridd a fu,
Ati ryw ddiwrnod,
O dwg hi etto ffrwythau hynod,
Chwi gewch gan yr Arglwydd wir oreuglod.

XVII, *Coed yr Ardd.*

Na chyffyrddwch a hon yma,
Sydd ar lan Cicaion Jonah, *Jonah* iv. 6
Dacw hefyd y pren Almon, *Preg.* xii. 5
Fe edwyn pawb ei flodau gwynion;
Wele lawer iawn o balmwydd,
Hoff iawn ydynt, a'r ffinydwydd;
Y palmwydd hardd, ar glawdd yr ardd,
Yr hâf, a dardd allan,
A osododd Aer y winllan,
A'i lew hynod law ei hunan,
Nid yw y rhei'ny yn difwyno,
Dim o'r ydau sy' ynddi yn cnydio;
Ond mawr yw hyn, fod y chwynn,
A'r efrau sy 'n dryfrith,
Mor egniol yn y gwenith.
Gwedi i'r lladron hau eu fledrith.

XVIII. *Ffynnon y Winllan.*

Mae ffynnon lân y'ngardd y winllan,
Ar gyfer codiad haul Wyl Ifan,
Rhoddwyd arni enw perffaith,
Hon yw ffynnon iachawdwriaeth,
Uwch ei phen, i'w chadw yn g'ruaidd,
Y mae adail arail iraidd,
Clo o ddur sy' arni yn wir,
A elwir dychweliad;
Y mae iddo dair agoriad,

A elwir gobaith, ffydd, a chariad. 1 *Cor*. xiii. 13
Nid eill neb fyn'd iddi heb gennad,
Ond a gario 'r tair agoriad;
Fe a ddyry y Gwr a bia'r dw'r,
I fwynwr a fynno,
Ond addo yn dyner ddyfod yno,
Elw fawr-wych i lafurio.

XIX. *Cerdd y Gweithwyr.*

Gwyn ein byd ein bod ni yma,
Yn cael ymborth pur ein gwala,
O ragor bod wrth lyan Sodoma,
Gaead ochain yn godecha: *Dat*. v. 9, 14.
Nid oes tebyg i ddiwydrwydd,
Gweithio yn nerthol wrol arwydd,
A chwynnu yn hy, y lle 'r un llu,
Rhag methu rai methiant,
Yn y man y goresgynant,
Hyd y rhydau hwy a redant;
Ond mawr na baent hwy yn diflanu,
Mae'r tywysenau yn tês-wynnu,
Y mae 'r hâ' dymher da,
I'w difa hwy yn dyfod,
Gwae 'r dû godau digydwybod,
Hyll, a'mhuredd, suredd sorod.

XX. *Y Cynhauaf mawr.*

Y mae 'r cynhauaf mawr yn dyfod,
Fe a fydd gwarthus i ni ein gwrthod,
Nad allwn fedi ffrwyth ein llafur,
Gydâ ein deiliaid a'n medelwyr: *Mat*. ix. 37, 38.
Pan ddêl Arglwydd yr holl drysor,
I gasglu 'r gwenith i'w ysgubor,
Yr efrau mân a lysg yn lân,
Mewn tân anffortunus!
Gwae 'r ddraig anial ddyn drygionus,
Yr hwn na chredodd, mae 'n echrydus,
A gwynfydedig yw 'r daionus,
A wnaeth er mawl ei hollawl 'wyllys,
Hwy a gân' le yn y nê',
Fel seintie tra sanctedd;
Hwy a gân' gariad a thrugaredd,
Gydâ'r Arglwydd hylwydd haeledd.

ROBERT EVANS, Meifod, a'i Canodd.

DIWEDD.

[*Pris Ceiniog.*]

UNIV. COLL. WALES & MON. SALISBURY LIBRARY